# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2018

Amser: 08.30 - 09.08

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 3 Hydref 2018 -**

- Dadl ar ddeiseb P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc (60 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

### 3.4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2 – cais i ailystyried cais am Gynnig Heb Ddyddiad Trafod

Cytunodd Rheolwyr Busnes i ddychwelyd i'r mater ar ôl toriad yr haf.

## 4 Rheolau Sefydlog

### 4.1 Cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 116C

Pleidleisiodd Rheolwyr Busnes ar a ddylid cynnwys Rheol Sefydlog 25A annibynnol ynteu diwygio Rheol Sefydlog 27. Penderfyniad y mwyafrif oedd diwygio Rheol Sefydlog 27.

Cytunodd Rheolwyr Busnes i siarad â'u grwpiau a rhoi gwybod i'r Llywydd y tu allan i'r Pwyllgor Busnes ynghylch a fydd eu haelodau yn cefnogi'r newid i Reol Sefydlog 27 pan gyflwynir cynnig yn y Cyfarfod Llawn yn nhymor yr hydref.

### 4.2 Ymgynghoriad ar Filiau Cydgrynhoi

Nododd Rheolwyr Busnes y papur a chytunodd i ymgynghori â Chomisiwn y Gyfraith ar y weithdrefn amlinellol. Cytunodd Rheolwyr Busnes hefyd i ymgynghori â'u grwpiau ar y materion a godwyd a dychwelyd i'r mater mewn cyfarfod yn y dyfodol, ynghyd ag unrhyw ymateb a geir gan Gomisiwn y Gyfraith.

## 5 Gadael yr Undeb Ewropeaidd

### 5.1 Gweithdrefnau'r Pwyllgor Busnes ar gyfer craffu ar Brexit

Nododd Rheolwyr Busnes y wybodaeth ddiweddaraf am system rhybuddio cynnar ar gyfer cywiro Offerynnau Statudol ac ar Femoranda Cydsyniad Offeryn Statudol, a gwnaethant drafod y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â chraffu ar Offerynnau Statudol sy'n deillio o Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 fel y'u nodir yn y papur

.

### 5.2 Trefniadaeth busnes y Pwyllgor Busnes i hwyluso craffu ar Brexit

Nododd Rheolwyr Busnes y sefyllfa ddiweddaraf o ran newidiadau posibl i amserlen y Cynulliad a chytunwyd ar barhau i adolygu'r sefyllfa. Yn dilyn cynnig gan Arweinydd y Tŷ, cytunodd Rheolwyr Busnes mai yn nhymor yr hydref y dylai'r aelodau Llafur ychwanegol gael eu hethol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

## Enwebiad UKIP ar gyfer Comisiynydd y Cynulliad

Penderfynodd Rheolwyr Busnes ar ddychwelyd i'r mater yn nhymor yr hydref.